**Dydd Mawrth: Dysgeidiaeth am Ddyddiau Enbyd**

**Darllen Jeremeia 14:17–21; Mathew 24:1–14; Luc 21:7–19**

**Myfyrdod**

Ymadawodd Iesu â'r Deml gan sylweddoli nad oedd yr awdurdodau yn mynd i newid eu hagwedd, a bod dyddiau enbyd ar y gorwel. Gofidiai fod yr arweinwyr yn mynnu cael byd cyfforddus ar draul y duwiol wragedd gweddw ac amddifad. Fel y dywedodd Ivor Thomas Rees:

'Ymffrost y Rabiniaid oedd eu bod yn gwasanaethu Duw a'r bobl, ond mewn gwirionedd, yr hyn a wnaethant oedd perswadio'r bobl i'w cynnal mewn modd cyfforddus.'

Mor wahanol oedd bywyd Iesu ei hun fel Athro. Ni ddisgwyliai'r bywyd cyfforddus y mynnai'r Rabiniaid ei gael. Pwysleisiodd Iesu mai torri geiriau oedd cyfraniad pennaf y bobl bwysig hyn ac nid gwasanaethu'r anghenus yn ysbrydol na chorfforol.

Gwelodd lygedyn o obaith nad oedd dysgeidiaeth yr Ysgrythur wedi diflannu yng ngweithred hardd y wraig dlawd, yn rhoddi'r cyfan oedd yn ei meddiant i gist y Deml.

Taith anodd oedd dringo'n ôl i Fethania dros Fynydd yr Olewydd, a chafodd Iesu gyfle i sôn am y dyddiau anodd oedd ar y gorwel: cwymp y ddinas, dinistr y Deml, rhyfeloedd, brad, trais, daeargrynfeydd, newid. Cyfnodau anodd, anodd. A gwyddom i ran o'i broffwydoliaeth gael ei chyflawni yn y flwyddyn 70 O.C. pan gyflawnodd byddin Rhufain erchyllterau ar drigolion Jerwsalem, y Deml a'r adeiladau eraill a losgwyd. Ers 70 O.C. bu'r byd yn ymwybodol o'i broffwydoliaeth. Ni ddaeth diwedd ar y dyddiau enbyd. Y mae plant Duw yn dal o dan erledigaeth mewn llawer gwlad. Gair olaf Iesu wrth ei anwyliaid o ddisgyblion oedd: 'A'r hyn yr wyf yn ei ddweud wrthych chwi, yr wyf yn ei ddweud wrth bawb; byddwch yn wyliadwrus'. Cyngor buddiol i ni ym mhob cenhedlaeth, boed ein trigfa yn Jerwsalem neu yng Nghaerdydd, Lerpwl neu Llanfair-yng-Nghornwy.

***D. Ben Rees***